(HCC 942)

**Cofnodion o gyfarfod Cyfarwyddwyr Hybu Cig Cymru (HCC) a gynhaliwyd am 10.30am trwy gyfrwng Microsoft Teams ddydd Iau 7 Mai 2020**

**Yn Bresennol:** Kevin Roberts (Cadeirydd)
Melody Chapman, Huw Davies, Gareth Wynn Davies, John Davies, Rhys Davies, Rachael Madeley Davies, Prys Morgan, Nadine Porter, Catherine Smith a Claire Williams

**Trwy Wahoddiad:** Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig, Lesley Griffiths, AS
Maria Richards (Llywodraeth Cymru)

**Y Weithrediaeth yn bresennol:** Gwyn Howells (Prif Weithredwr)
Julie Davies-Jones (Ysgrifenyddiaeth)
Kirsten Hughes (Swyddog Gweithredol Cig Coch) – Eitemau 6b a 7d
Rhys Llywelyn (Rheolwr Datblygu'r Farchnad)
Bryan Regan (Rheolwr Gwasanaethau Corfforaethol)
John Richards (Rheolwr Datblygu a Chysylltiadau'r Diwydiant)
Owen Roberts (Rheolwr Cyfathrebu)

1. **<u>Croeso a Sylwadau'r Cadeirydd</u>**

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod, yn enwedig y pedwar Cyfarwyddwr Anweithredol sydd newydd gael eu penodi, sef Melody Chapman, Rhys Davies, Prys Morgan a Nadine Porter.

Nodwyd taw hwn oedd cyfarfod ffurfiol cyntaf y Bwrdd i gael ei gynnal yn rhithiol. Bu'n rhaid gwneud hyn am fod y pandemig Coronafeirws / Covid-19 wedi gorfodi'r Llywodraeth i gyflwyno cyfyngiadau clo o 23 Mawrth 2020.

Roedd y Weithrediaeth wedi ymateb yn syth i weithio dan amodau argyfwng, gan ateb gofynion y Llywodraeth ac anghenion busnes gyda staff yn gweithio o'u cartrefi. Roedd y Weithrediaeth wedi cyfeirio at gynlluniau Rheoli Busnes ac Argyfyngau trwy wneud newidiadau hanfodol yn briodol a chyflym. Dywedodd y Prif Weithredwr wrth y Bwrdd fod y staff wedi addasu'n dda i'r newidiadau a gorfod gweithio o'u cartrefi.

Ar ran y bwrdd, diolchodd y Cadeirydd i'r holl staff am barhau i weithio fel arfer mewn cyfnod anodd a phryderus dros ben.

Rhoddodd y Cadeirydd ddiweddariad am ddigwyddiadau a chyfarfodydd allweddol y bu'n eu mynychu oddi ar y cyfarfod blaenorol o'r Bwrdd: -

16 Mawrth 2020 – Bu'r Cadeirydd yng Nghaerdydd yng nghyfarfod bord gron EERA y Gweinidog i drafod Cyfnod Pontio'r UE. Cafodd crynodeb o'r cyfarfod ei rannu â'r Bwrdd gan y Cadeirydd ar 8 Mawrth 2020.

Roedd yn ymddangos fod Llywodraeth Y DG yn benderfynol o ymadael â'r UE ar 31 Rhagfyr 2020 a'i bod yn bur annhebygol y câi cyfnod pontio Brexit ei ymestyn er gwaethaf Covid-19. Y dyddiad cau ar gyfer cais gan Lywodraeth Y DG i ofyn i'r UE am estyniad oedd 1 Gorffennaf 2020.

Cytunwyd y dylid cynnwys diweddariad am Brexit ar yr agenda ar gyfer cyfarfod y Bwrdd ar 2 Gorffennaf 2020.

1 Ebrill 2020 – Bu'r Cadeirydd yn cymryd rhan mewn cyfarfod o Grŵp Cynghori'r Prif Weinidog ar Ymadael â'r UE i drafod beth fyddai hyn yn ei olygu ar ddiwedd y cyfnod pontio.

9 Ebrill 2020 – Bu'r Cadeirydd a'r Prif Weithredwr yn cymryd rhan mewn cyfarfod Teams dan arweiniad Cadeirydd Bwrdd yr Asiantaeth Safonau Bwyd (FSA), Heather Hancock. Cynhaliwyd y cyfarfod i roi cyfle am drafodaeth agored ar sut roedd y diwydiant yn deilio â phroblemau sy'n deillio o Covid-19.

14 Ebrill 2020 – Bu'r Cadeirydd yng Nghaerdydd yng nghyfarfod bord gron EERA y Gweinidog i drafod Cyfnod Pontio'r UE. Roedd y drafodaeth yn ymwneud yn bennaf â Covid-19 a rhoddwyd diweddariad am Ffermio Cynaliadwy a'n Tir.

21 – 22 Ebrill 2020 – Rhoddwyd rhaglen gyflwyniad byr i'r Cyfarwyddwyr Anweithredol newydd gan y Cadeirydd, y Swyddogion Gweithredol a swyddogion Llywodraeth Cymru. Gwnaed hyn yn rhithiol.

23 Ebrill 2020 – Bu'r Cadeirydd a'r Prif Weithredwr yng nghyfarfod rhithiol Bwrdd Da Byw NFU Cymru.

2. **<u>Ymddiheuriadau am absenoldeb</u>**

Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau.

3. **<u>Datganiadau o Fuddiannau</u>**

Nid oedd unrhyw Ddatganiadau o Fuddiannau newydd.

4. **<u>I gymeradwyo cofnodion cyfarfod y Bwrdd a gynhaliwyd ddydd Iau 5 Mawrth 2020 (HCC 933)</u>**

Cymerwyd bod cofnodion y cyfarfod o'r Bwrdd a gynhaliwyd ddydd Iau 5 Mawrth 2020 wedi'u darllen, a chawsant eu derbyn gan y Bwrdd ac yna'u llofnodi gan y Cadeirydd.

5. **<u>Materion yn codi</u>**

<u>Cynllun Corfforaethol HCC 2020 / 2023 a Chynllun Gweithredol 2020 / 2021</u>

Nodwyd bod llythyr Llywodraeth Cymru ynghylch cylch gwaith HCC ar gyfer 2020 / 2021 wedi'i dderbyn oddi wrth y Gweinidog.

Roedd y Prif Weithredwr wedi cydnabod y llythyr cylch gwaith, gan nodi y byddai 2020 / 2021 yn siŵr o fod yn heriol iawn i ddiwydiant cig coch Cymru, o ran ymateb i'r pandemig Covid-19 yn ogystal â pharatoi ar gyfer perthynas yn y dyfodol rhwng y DG a'r UE. Roedd y Prif Weithredwr wedi cadarnhau fod y camau gweithredu yn y llythyr cylch gwaith ar gyfer HCC yn ystod y flwyddyn ariannol hon yn unol â'r gweithgareddau a nodwyd yng Nghynllun Gweithredol HCC ar gyfer 2020 / 2021.

Byddai'r Gweinidog a swyddogion Llywodraeth Cymru yn cael eu hysbysu am unrhyw gymhwyso a allai orfod digwydd yn ystod y cyfnod heriol hwn. (Gweler Eitem 6b).

<u>EIDCymru</u>

Byddai'r Prif Weithredwr yn ymgysylltu â Llywodraeth Cymru mewn perthynas â'r Bwrdd yn cael ei friffio ar EIDCymru / Amlrywogaeth Cymru mewn cyfarfod yn y dyfodol.

6. **<u>Coronafeirws (Covid-19)</u>**

a. <u>Y diweddaraf am effaith Covid-19 ar y Diwydiant Cig Coch</u>

Rhodd y Prif Weithredwr ddiweddariad ynghylch adrodd i'r Bwrdd, agwedd weithredol HCC a goblygiadau i'r diwydiant: -

- Cafwyd telegynadleddau wythnosol rhwng y Bwrdd a'r Swyddogion Gweithredol yn ystod y cyfnod clo a byddai'r rhain yn para.

- Roedd tarfu o hyd ar y sectorau Llaeth a Chig Eidion ac roedd yn ymddangos y byddai hyn yn para am gryn amser eto. Roedd y sector Cig Eidion o dan bwysau ar hyn o bryd ac roedd y prisiau'n anghynaliadwy. Bu trafodaeth ynghylch y defnydd anghytbwys o garcasau; roedd yn well gan ddefnyddwyr brynu'r cig rhataf megis briwgig yn hytrach na'r cig drutaf o'r goes ôl, er enghraifft.

  Roedd gobaith y ceid defnydd mwy cytbwys yn ystod yr wythnosau nesaf, yn dilyn ymgyrchoedd marchnata newydd a sylweddol gan HC a'r Gronfa Glustnod (RFF). Roedd y cyfnod hir o dywydd braf hefyd yn fanteisiol i fân-werthwyr a'r diwydiant cig am fod teuluoedd yn mwynhau prydau barbeciw gartref.

- Roedd yn debygol y ceid tarfu ar y farchnad Ddefaid / Ŵyn yn ystod y misoedd nesaf yn dilyn cau sefydliadau gwasanaeth bwyd a'r hyn a allai ddigwydd i allforion, yn enwedig i'r Undeb Ewropeaidd. Fodd bynnag, nodwyd nad oedd mwy o gyfenwad na galw ar hyn o bryd ac felly roedd prisiau'r farchnad yn sefydlog.

- Roedd HCC wedi dechrau cynllunio ar sail sefyllfa debygol ar gyfer y sector Ddefaid. Rhoddwyd ystyriaeth i'r effaith ar y gadwyn gyflenwi, prisiau tebygol, yr hyn allai HCC ei wneud i ddylanwadu fwyfwy ar ddefnyddwyr, etc. Câi'r Bwrdd ei ddiweddaru am hyn yn ei gyfarfod ar 2 Gorffennaf 2020.

- Roedd HCC wedi ymateb yn gyflym o ran cyfathrebu a rhoi gwybod i'r diwydiant, rhanddeiliaid a defnyddwyr. Cafodd y wefan Gorfforaethol ei diweddaru â'r pennawd "Coronafeirws" ar y dudalen flaen a dolenni oddi yno i wybodaeth am yr ymgyrchoedd marchnata a manylion am sefydliadau elusennol sy'n cynnig cymorth ac arweiniad i ffermwyr.

- Roedd gweithgareddau HCC ar y cyfryngau cymdeithasol yn parhau trwy gyfrwng nifer o sianeli, gan ganolbwyntio ar farchnata cig coch. Roedd y Bwrdd yn teimlo fod hwn yn faes allweddol ac y dylid canolbwyntio'n llwyr ar drosglwyddo negesau gan HCC a'r diwydiant ar draws y gadwyn gyflenwi yn gyflym ac amserol.

- O ran y Prosiect Datblygu Cig Coch, gofynnwyd i'r tîm edrych ar restrau gwaith a risgiau byrdymor, tymor canolig a hirdymor a gwneud cymwysiadau pwrpasol. Cafodd ymweliadau â ffermydd a digwyddiadau ar ffermydd eu canslo neu eu gohirio.

b. <u>Goblygiadau Covid-19 o ran darparu Cynllun Gweithredol HCC 2020 / 2021 (HCC 934)</u>

Cymerwyd bod yr uchod wedi'i ddarllen a chafwyd crynodeb gan y Swyddog Gweithredol Cig Coch.

Byddai'r pandemig Covid-19 a rheoliadau gorfodol y Llywodraeth yn cael effaith ar allu HCC i ddarparu yn unol â'r gweithgareddau a amlinellwyd yn y Cynllun Gweithredol ar gyfer 2020 / 2021.

Felly, roedd y Weithrediaeth wedi paratoi Papur â chymwysiadau allweddol i'r Bwrdd ei ystyried.

Roed y Papur yn ddrafft cychwynnol ar gyfer trafodaeth a châi ei helaethu gan y Weithrediaeth ar gyfer cyfarfod y Bwrdd ar 2 Gorffennaf 2020.

Cytunodd y Bwrdd â'r camau a oedd yn cael eu cymryd gan y Weithrediaeth a chytunodd hefyd y dylid adolygu'r camau nesaf.

**<u>I groesawu Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig, Lesley Griffiths AS</u>**

Croesawyd y Gweinidog i'r cyfarfod gan y Cadeirydd.

Ymddiheurodd y gweinidog na fedrai aros yn hir am fod ganddi gyfarfod arall, ond cytunodd i gymryd rhan mewn telegynhadledd gan Fwrdd HCC yn y dyfodol.

Croesawodd y Gweinidog yr aelodau newydd a benodwyd i Fwrdd HCC a diolchodd iddynt am eu hymrwymiad hyd yma.

Rhoddodd y Gweinidog ddiweddariad am ei gwaith yn ystod y cyfnod digynsail a heriol hwn fel canlyniad i Covid-19 a dywedodd ei bod yn cael ei hysbysu'n rheolaidd am waith HCC.

Roedd y Gweinidog yn mynychu nifer o gyfarfodydd brys a oedd yn cael eu cynnal o hyd gyda Llywodraeth Y DG ac oddi mewn i Lywodraeth Cymru yn ymwneud â materion a oedd yn cael effaith ar amaethyddiaeth, yr economi wledig a'r gadwyn cyflenwi bwyd.

Roed y Gweinidog yn mynychu cyfarfodydd Grŵp Cydnerthedd Amaethyddol Llywodraeth Cymru ac yn cael gwybodaeth yn rheolaidd gan swyddogion.

Cafodd nifer o fesurau eu cyflwyno i gefnogi ffermwyr ac roedd eraill yn cael eu hystyried: -

- Rhoddwyd estyniad o fis fel bod gan ffermwyr fwy o amser i gyflwyno eu ceisiadau am y Taliad Sengl. Y dyddiad cau erbyn hyn oed 15 Mehefin 2020
- Neilltuwyd £5.5m i Gynllun y Taliad Sylfaenol (BPS) a chynllun cymorth Glastir 2019
- Cafodd adnodd gwybodaeth a chyngor newydd, sef "FarmWell Cymru", ei lansio er mwyn cynnig gwybodaeth a chyngor i fusnesau fferm

O ran Brexit, roedd y Gweinidog wedi ysgrifennu at George Eustice, AS a'r Ysgrifennydd Gwladol dros yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig ynghylch ei phryderon fod y DG yn ymadael â'r UE ar 31 Rhagfyr 2020 a'r goblygiadau a chanlyniadau difrifol y câi dim cytundeb ar y sector cig coch. Ni chafwyd ymateb hyd yma.

Croesawodd y Gweinidog y gwaith y byddai HCC yn ei wneud mewn perthynas â chynllunio ar gyfer sefyllfaoedd tebygol y gallai'r sector Defaid eu hwynebu a diolchodd i bawb a fu'n ymwneud â gweithredu'r ymgyrchoedd marchnata Cig Eidion mewn cyn lleied o amser.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Gweinidog am neilltuo amser i ymuno â chyfarfod Y Bwrdd a manteisiodd ar y cyfle i sôn am ddau beth allweddol a oedd yn poeni'r Bwrdd:-

- Cynaliadwyedd prisiau Cig Eidion yn y tymor byr a oedd yn is na'r cyfartaledd pum-mlynedd. Ar nodyn mwy strategol, roedd dyfodol y sector Buchod Sugno Cig Eidion yn haeddu ystyriaeth ddifrifol am fod y gostyngiad parhaus yn nifer y buchod yn achos pryder

- Defaid – roedd yna bosibilrwydd cryf y gallai'r sector wynebu heriau difrifol yn ystod y flwyddyn, a byddai angen cynllunio sylweddol i liniaru colledion posibl.

7. **<u>Adroddiadau HCC</u>**

   a. <u>Gweithgareddau (HCC 935)</u>

Cymerwyd bod yr uchod wedi'i ddarllen.

Rhoddodd y Rheolwr Datblygu'r Farchnad ddiweddariad byr am yr ymgyrchoedd Cig Eidion parhaus (ar gael trwy SharePoint / Cyfarfodydd blaenorol / 07.05.20).

b. Crynodeb o Fwletin y Farchnad (HCC 936)

Cymerwyd bod yr uchod wedi'i ddarllen.

c. Ariannol – Incwm a Gwariant a'r Fantolen tan 31 Mawrth 2020 (HCC 937)

Cymerwyd bod yr uchod wedi'i ddarllen a chafodd ei gyflwyno gan y Rheolwr Gwasanaethau Corfforaethol, heb unrhyw faterion i'w codi.

d. I gael papur ar Adolygiad Diwedd Blwyddyn o Gynllun Gweithredol HCC 2019 / 2020 (HCC 938)

Cymerwyd bod yr uchod wedi'i ddarllen a chafwyd crynodeb gan y Swyddog Gweithredol Cig Coch.

Nodwyd bod cod lliw ychwanegol (porffor) wedi'i ychwanegu at y golofn perfformiad yn ôl targedau er mwyn dangos nad oedd modd mesur y targed yn briodol oherwydd cyfyngiadau Covid-19.

Yn dilyn trafodaeth ac eglurhad o ambell beth, roedd y Bwrdd yn fodlon â'r adolygiad diwedd-blwyddyn.

e. Diweddariad am ddigwyddiadau (HCC 939)

Cymerwyd bod yr uchod wedi'i ddarllen a chafodd ei grynhoi gan y Rheolwr Cyfathrebu.

Oherwydd cyfyngiadau Covid-19, cafodd nifer o ddigwyddiadau yr oedd HCC wedi bwriadu cymryd rhan ynddyn nhw eu canslo neu eu gohirio. Roedd y Weithrediaeth yn cadw llygad ar y sefyllfa ac yn ystyried y posibilrwydd o gynnal digwyddiadau rhithiol yn y dyfodol.

## 8. **Pwyllgorau HCC**

### ***Y Pwyllgor Cynghori ar Farchnata***

a. I dderbyn y cofnodion o gyfarfod y Pwyllgor Cynghori ar Farchnata a gynhaliwyd ddydd Llun 11 Chwefror 2020 (HCC 940)

Cymerwyd bod yr uchod wedi'i ddarllen, a chafodd ei fabwysiadu gan y Bwrdd.

### ***Y Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg***

b. <u>I dderbyn y Cofnodion o gyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg a gynhaliwyd ddydd Iau 5 Mawrth 2020 (HCC 941)</u>

Cymerwyd bod yr uchod wedi'i ddarllen, a chafodd ei fabwysiadu gan y Bwrdd.

**<u>Y Pwyllgor Cynghori ar Gyfathrebu</u>**

c. <u>I gael adroddiad llafar am gyfarfod y Pwyllgor Cynghori ar Gyfathrebu a gynhaliwyd ddydd Iau 7 Mai 2020</u>

Cafwyd adroddiad llafar am yr uchod gan Gadeirydd y Pwyllgor.

9. **<u>Unrhyw fater arall</u>**

Nid oedd unrhyw fater arall.

10. **<u>Dyddiad y cyfarfod nesaf</u>**

Dydd Iau 2 Gorffennaf 2020.

**Llofnodwyd…………………………….**
**Cadeirydd HCC**